

5 - Trelawnyd i Dreimeirchion 6 milltir/9.6 km Map Archwilio OS 264

O'r pentref, defnyddiwch y groesfan i gerddwyr i fynd i Eglwys San Mihangel. Dilynwch y lôn heibio'r eglwys at bont. Ar ôl croesi'r bont cymerwch y trac ar eich ochr chwith. Rydych yn awr ar Daith Clwyd. Dilynwch y llwybr yma, gan basio'r fynedfa i fyngalo (Swyn y Mynydd) ar eich ochr chwith, ac ewch at gamfa. Croeswch dros hon i lwybr ceffyl a chymryd y llwybr amlwg o'ch blaen i fynd dros bont droed (pont gerbyd y ffermwr) i gae arall. Yma anelwch am gornel chwith uchaf y cae at gamfa tu ôl i lwyni. Croeswch dros y gamfa yma a cherddwch gyda'r gwrych ar eich ochr chwith i fynd dros gamfa arall at drac. Trowch i'r dde ar hyd y trac yma at ffordd goncrit a llyn.

Trowch i'r dde eto ar hyd y trac dros y bont i fynd naill ai dros y gamfa neu drwy'r giât i mewn i'r cae. Ewch yn eich blaen gyda'r gwrych ar eich ochr chwith. Ar ôl dwy gamfa arall byddwch yn cyrraedd camfa sy'n eich cymryd i'r chwith i'r goedwig. Dilynwch y ffordd gyda chyfeirbwyntiau, gan ddefnyddio tramwyfa bren dros ffos, drwy'r coed ac yna ar draws y cae i'r lôn. Trowch i'r dde ac yna'n syth i'r chwith dros gamfa arall.

Ewch drwy'r cae yma a'r un nesaf gyda'r gwrych ar eich ochr dde. Croeswch dros y lôn a dilyn y llwybr gyda chyfeirbwyntiau wrth iddo groesi dros dair camfa arall i gyrraedd lôn. Trowch i'r chwith ar hyd y lôn a'i dilyn at y ffordd yn Nhynewydd. Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd yma tuag at y bont fodern sy'n croesi dros yr A55.

Unwaith y byddwch wedi croesi'r bont, trowch i'r chwith i'r llwybr ceffyl sydd ochr yn ochr â'r A55. Cymerwch y gamfa a'r llwybr gyda chyfeirbwyntiau, ar y dde, yn syth ar draws y cae (tua'r de gan basio'r dalaf o'r coed derw), croeswch gamfa i ddilyn llwybr gyda ffens o amgylch y maes awyr i gyrraedd dreif y fferm (Bryn Gwyn Bach) a throi i'r dde ar ei hyd at y giât. Pan gyrhaeddwch y lôn trowch i'r dde a cherdded at groesffordd a throi i'r chwith i fyny'r allt i basio tŷ (Bryntirion)

Wrth i chi gyrraedd ael y bryn cymerwch y trac mynediad ar eich ochr dde. Pan gyrhaeddwch y pen (wrth y giât i Benymynydd) ewch drwy'r giât mochyn ar eich ochr chwith a cherdded i fyny at yr ail giât mochyn ar eich ochr dde. Croeswch y cae i dop y bryn (o'r fan yma mae golygfa wych o Ddyffryn Clwyd gyda Dinbych ar yr ochr chwith, Llanelwy o'ch blaen a'r Afon Clwyd yn llifo i'r môr yn y Rhyl, ar yr ochr dde). Cymerwch y gamfa ar eich ochr chwith (dros y ffens wifrau) a dilyn y llwybr troed yn lletraws i'r dde i lawr ochr y bryn at lwybr ceffyl. Trowch i'r chwith ar hyd y llwybr ceffyl yma (rhan o Lwybr Clawdd Offa). (Gallech ymweld â Choleg Sant Beuno drwy drefnu hynny o flaen llaw. I wneud hynny trowch i'r dde).

Gadewch y llwybr Cenedlaethol yma ar ôl oddeutu 200 metr (pan fydd yn mynd i fyny'r allt) a chymryd y llwybr ceffyl, ar y dde, i lawr tuag at bentref Dreimeirchion. Bydd y llwybr ceffyl yn troi'n lôn ac, wrth y bwthyn cyntaf (Ysgubor) cymerwch y llwybr troed dros y gamfa ar eich ochr chwith i groesi nant fechan. Dilynwch y llwybr troed yma dros dri chae a chamfa i bentref Dreimeirchion a welwch o'ch blaen. Trowch i'r dde i Eglwys y Corpus Christi.